Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
Tribunals Service
Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant
Social Security and Child Support

Ffurflen Ymholi

Llenwch y ffurflen mewn LLYTHRENNAU BRAS a'i dychwelyd atom cyn pen 14 diwrnod.

Cyflwynir y ffurflen hon i:

Enw:

Cyfeiriad:

Swyddfa sy'n cyflwyno:

Dyddiad cyflwyno:

Ffôn y swyddfa:

Cyfeirnod yr Apêl:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Eich Rhif Ffôn:

Atebwch y cwestiynau canlynol a llofnodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd yn yr amlen a ddarperir cyn pen 14 diwrnod.

Cwestiwn 1

Ydych chi am gael gwrandawiad lle gallwch chi a'ch cynrychiolydd, os oes gennych un, gwrdd â'r Tribiwnlys a chyflwyno'ch achos?

Ydw ☐
Nac ydw ☐

Os ydych, dywedwch wrthym os oes unrhyw ddyddiau o'r wythnos pan **NAD** ydych ar gael yn rheolaidd ar gyfer gwrandawiad?

Os ydych wedi ticio **NAC YDW** yng Nghwestiwn 1, efallai y byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail nad oes gennych wrthwynebiad i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad ynghylch eich apêl yn eich absenoldeb. Gallwch ysgrifennu atom o hyd gan nodi unrhyw beth yr hoffech i'r Tribiwnlys ei ystyried, ond gwnewch hynny o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Cwestiwn 2

Os ydych wedi ticio **YDW** yng Nghwestiwn 1, byddwn fel arfer yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd am ddyddiad y gwrandawiad.

Ticiwch y blwch hwn ☐ os byddech chi'n fodlon derbyn llai o rybudd. Gall hyn olygu y byddwn yn gallu trefnu'r apêl yn gynt, er enghraifft, pe byddai apêl arall yn cael ei chanslo.

Cwestiwn 3

A oes angen cyfieithydd ar y pryd arnoch chi?
Os oes, byddwn yn trefnu bod gwasanaethau cyfieithydd annibynnol ar gael yn y gwrandawiad.

Oes ☐

Nac oes ☐

Dywedwch wrthym ba iaith a thafodiaith yr ydych yn eu defnyddio fel arfer.

Iaith

Tafodiaith

Cwestiwn 4

A oes angen arwyddwr arnoch chi?

Oes ☐

Nac oes ☐

Pa fath o arwyddwr sydd ei angen arnoch chi?

Os oes, byddwn yn trefnu bod gwasanaethau arwyddwr annibynnol ar gael yn y gwrandawiad.

Cwestiwn 5

Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym am unrhyw drefniadau arbennig eraill y bydd eu hangen arnoch. Er enghraifft, dolenni clyw, mynediad ar gyfer pobl ag anableddau.

Cwestiwn 6

Os oes gennych gynrychiolydd, rhowch ei enw a'i gyfeiriad llawn.

Os nad oes gennych gynrychiolydd ar hyn o bryd, gallwch anfon manylion eich cynrychiolydd atom yn ddiweddarach.

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Llofnod

Dyddiad